OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 2508 (Cy. 247)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 47, Penlle'r-gaer, Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Hydref 2013* |
| *Yn dod i rym* | *7 Hydref 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Drafford Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y drafford"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r drafford oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Hydref 2013. Ei enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 47, Penlle'r-gaer, Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 7 Hydref 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 47, Penlle'r-gaer, Abertawe.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r draffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Hydref 2013

***R Morgan***
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.